Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

# Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru
# Canllaw hawlio 2025 - 2026

This document is also available in English.

DRAFFT

Rheoli Fersiynau

| Fersiwn | Dyddiad y Newid | Golygydd | Manylion |
|---|---|---|---|
| Fersiwn 1.0 | 22/09/2023 | Anita Davies / Amanda Jones | Addasiad cyntaf |
| Fersiwn 1.1 | 23/06/25 | Amanda | I gyd fynd â newidiadau i'r ffurflen hawlio |
| | | | |
| | | | |

E-bostiwch eich ymholiadau i: ffyniantgyffredingogleddcymru@gwynedd.llyw.cymru

Cynnwys


**CYFLWYNIAD ........................................................................................ 4**

1. DIBEN ........................................................................................ 4

2. CYFEIRNOD UNIGRYW'R PROSIECT ........................................................ 4

3. AMSERLEN HAWLIO ........................................................................ 4

4. DOGFENNAU HAWLIO ...................................................................... 5

**FFURFLEN HAWLIO GRANT ........................................................... 5**

5. TROSOLWG .................................................................................. 5

6. CANLLAWIAU ............................................................................... 7

7. ATODIAD B – CRYNODEB ................................................................ 7

10 CYNLLUN CYFLAWNI A CHERRIG MILLTIR ............................................ 11

**GWARIANT PROSIECT ................................................................... 13**

14 COSTAU CYMWYS ........................................................................ 13

16 STAFF ........................................................................................ 13

17 COSTAU DISWYDDO ....................................................................... 14

19 TEITHIO A CHLUDIANT .................................................................. 14

20 GRANTIAU/CEFNOGAETH I 3YDD PARTÏON .......................................... 15

22 COSTAU CYFALAF .......................................................................... 15

23 MARCHNATA A CHYHOEDDUSRWYDD ................................................. 16

24 GWEITHGAREDDAU'R PROSIECT ........................................................ 16

25 CYHOEDDUSRWYDD ....................................................................... 16

26 AMODAU ARBENNIG ...................................................................... 17

28 RHESTR ASEDAU .......................................................................... 17


DRAFT

29 YR IAITH GYMRAEG ........ 17
30 CYDRADDOLDEB ........ 18
31 SERO NET ........ 18
32 RHEOLI CYMORTHDALIADAU ........ 18
33 MATERION YN CODI ........ 19
34 CAIS AM NEWID ........ 19
**CYFLWYNO HAWLIAD ........ 20**
36 AD-DALU'R GRANT ........ 20
37 GWIRIO AC ADOLYGU ........ 20
38 GWIRIO SAMPLAU ........ 21
39 ARCHWILIAD AR SAFLE ........ 22
**TYSTIOLAETH A DOGFENNAETH GEFNOGOL ........ 22**
40 TYSTIOLAETH GWARIANT ........ 22
41 TYSTIOLAETH ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU ........ 22
42 TYSTIOLAETH CAFFAEL ........ 23
43 CADW DOGFENNAU ........ 23

DRAFT

## CYFLWYNIAD

### 1. DIBEN

1.1 Darparu proses hawlio grant ariannol gyson i dderbynwyr grant, er mwyn gallu llenwi a chyflwyno ffurflen hawlio grant ar gyfer ad-daliad o gyllid UKPSF. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r broses adrodd, cais am newid, meini prawf cymhwysedd, polisi cadw dogfennau, ceisiadau gwirio samplau, ymweliadau adolygu ar safle, a'r canllawiau i lenwi'r ffurflenni angenrheidiol i hawlio arian Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) yn llwyddiannus.

### 2. CYFEIRNOD UNIGRYW'R PROSIECT

2.1 Mae rhif cyfeirnod prosiect unigryw 3-digid wedi'i neilltuo i bob prosiect. Mae'r rhif hwn i'w weld ar y llythyr cytundeb ariannu grant ar gyfer eich prosiect, a dylid ei gynnwys yn yr holl ohebiaeth sy'n ymwneud â'ch hawliad. Dylid cyfeirio ato hefyd yn enw'r ffeil wrth ddychwelyd eich ffurflen hawlio grant a'ch adroddiad cynnydd.

### 3. AMSERLEN HAWLIO

3.1 Mae'r amserlen hawlio fel a ganlyn:

| Rhif Hawlio | Cyfnod hawlio | Dyddiad cyflwyno |
|---|---|---|
| 1 | Ebrill – Mehefin 2025 | 01/08/2025 |
| 2 | Gorffennaf – Medi 2025 | 10/10/2025 |
| 3 | Hydref – Rhagfyr 2025 | 09/01/2026 |
| 4 | Ionawr – Mawrth 2026 | 07/04/2026 |

Bydd hawliadau grant yn cael eu talu bob chwarter yn ôl gwariant y chwarter blaenorol (yn seiliedig ar gostau a gafwyd*).

** costau a gafwyd – costau y mae'r prosiect yn eu hwynebu pan fydd yn prynu nwyddau neu wasanaethau, ond heb eu talu eto.*

3.2 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall derbynnydd grant ofyn am gael taliad o flaen llaw. Bydd angen i brosiectau ddarparu cyfiawnhad cadarn i ddangos

DRAFT

bod llif arian yn rhwystr i gyflawni'r prosiect er mwyn cael cymeradwyaeth. Mae canllawiau pellach ar daliadau o flaen llaw ar gael ar gais.

3.3 Bydd angen i'r derbynnydd grant gyflwyno'r ffurflen hawlio grant a'r adroddiad cynnydd i Dîm Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cyrmu drwy e-bost ar neu cyn y dyddiad cyflwyno hawliad penodedig.

## 4. DOGFENNAU HAWLIO

4.1 Rhaid i dderbynwyr grant gwblhau a dychwelyd y **ddau** ddogfen ganlynol er mwyn i arian UKSPF gael ei ryddhau:

- Ffurflen Hawlio Grant (templed personol wedi'i gyflwyno ar wahân i'r derbynnydd grant)
- AC Adroddiad Cynnydd

Mae angen adroddiad cynnydd hyd yn oed pan fo hawliad yn nodi DIM gwariant.
Ni ellir prosesu hawliadau ariannol heb gwblhau'r ddwy ddogfen.

4.2 Bydd angen i'r derbynnydd grant gyflwyno'r ffurflen hawlio grant a'r adroddiad cynnydd i Dîm Rhanbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru (Tîm SPF Gogledd Cymru) drwy e-bost ar neu cyn y dyddiad cyflwyno hawliad penodedig.

4.3 Dylech nodi rhif cyfeirnod y prosiect ac enw'r prosiect yn nheitl pwnc yr holl negeseuon e-bost a anfonir at dîm SPF Gogledd Cymru .

# FFURFLEN HAWLIO GRANT

## 5. TROSOLWG

5.1 Bydd templed ffurflen hawlio grant yn cael ei gyflwyno i chi. Dogfen Excel fydd hon, wedi'i haddasu i adlewyrchu'r manylion yn Atodiad B cais y prosiect cymeradwy. Mae'r ffurflen hawlio grant yn cynnwys 9 dalen unigol

DRAFT

ar gyfer prosiect sy’n gweithredu mewn un sir, a 10 dalen ar gyfer prosiectau aml-sir fel y manylir isod:

1. Canllawiau
2. Atodiad B – Crynodeb
3. Datganiad & Thrafodion Hawliad
4. Dadansoddiad Ariannol UKSPF (Prosiectau aml-sir yn unig)
5. Allbynnau CFfG
6. Canlyniadau CFfG
7. Cynllun Cyflawni
8. Cynllun Caffael
9. Cofrestr Risg
10. Traciwr Hawliadau Prosiect

5.2 Efallai y bydd angen i dîm SPF Gogledd Cymru addasu neu ddiweddaru templed y ffurflen hawlio o dro i dro i sicrhau eu bod yn casglu digon o wybodaeth i'w adrodd i Lywodraeth y DU. Bydd unrhyw newidiadau i'r templed yn cael eu gwneud a’i anfon ymlaen i chi cyn dyddiad cyflwyno’r hawliad chwarterol.

5.3 I sicrhau bod pob hawliad yn cael ei brosesu'n effeithlon, ni ddylai'r derbynnydd grant newid fformat y ffurflen hawlio grant. Gall addasu'r templed effeithio ar y fformiwlâu sydd wedi'u cynnwys y tu mewn iddo, gan achosi gwallau posib yn yr hawliad.

5.4 Bydd y ffurflen hawlio grant yn cael ei hanfon atoch drwy e-bost. Bydd y ffurflen yn arddangos y tabiau a'r colofnau perthnasol sy'n angenrheidiol i gwblhau eich hawliad cyntaf, h.y. Datganiad & Thrafodion Hawliad 1.

5.5 Unwaith y bydd eich hawliad wedi'i brosesu, bydd yn cael ei ddychwelyd atoch chi. Bydd y fersiwn a ddychwelir yn arddangos y tabiau a'r colofnau perthnasol sy'n angenrheidiol i gwblhau eich ail hawliad, h.y. Datganiad & Thrafodion Hawliad 2. Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir yng Nghyfnod Hawlio 1 yn cael ei chloi. Bydd y trefniant hwn yn cael ei ailadrodd ar gyfer Cyfnod Hawlio 3 a 4.

5.6 Ni fyddwch yn gallu cyflwyno'ch hawliad nesaf nes fod yr hawliad blaenorol wedi'i brosesu a'r templed hawliad newydd wedi'i hanfon atoch chi gan y tîm rhanbarthol.

## 6. TAB CANLLAWIAU

6.1 Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y wybodaeth yn y canllawiau a ddarperir yn drylwyr. Mae'n cynnwys cyfarwyddiadau pwysig sy'n hanfodol ar gyfer cyflwyno eich hawliad yn llwyddiannus.

6.2 Sylwch y bydd angen cwblhau pob cell lliw gwyn. Bydd pob cell arall yn cael ei gloi ac ni ellir ei newid. Mae celloedd lliw oren golau wedi'u poblogi gyda'r gwerthoedd o'ch Atodiad B cymeradwy. Mae celloedd lliw llwyd yn werthoedd neu fformiwlâu wedi'u diffinio ymlaen llaw sydd wedi'u cloi i'w golygu. Mae celloedd melyn yn cynnwys cyfarwyddiadau neu ganllawiau. Mae celloedd gwyrdd yn dangos bod y data wedi pasio'r gwiriad dilysu. Mae celloedd coch yn nodi gwiriad dilysu a fethwyd, dylech adolygu a chywiro'r gwerthoedd a nodwyd.

## 7. ATODIAD B – CRYNODEB

7.1 Bydd yr adran hon yn cynnwys y crynodeb diweddaraf o'ch Atodiad B ac wedi ei phoblogi yn barod â gwybodaeth. Bydd yn cynnwys dadansoddiad Is-Thema SPF, penawdau gwariant a thargedau allbynnau a chanlyniadau.

7.2 Dylech wirio bod yr holl wybodaeth sydd wedi ei boblogi yn barod yn gywir. Os ydych yn darganfod unrhyw anghysondebau cysylltwch â'r Tîm SPF Gogledd Cymru cyn gynted â phosibl.

## 8. DATGANIAD HAWLIO A THRAFODION

8.1 Bydd tab Datganiad & Thrafodion Hawliad # yn cael ei baratoi ar gyfer pob cyfnod hawlio. Bydd y # yn cael ei ddisodli gan rif y cyfnod hawlio. Sylwch fod y daflen yn fawr, gwnewch yn siŵr eich bod yn sgrolio ar draws ac i lawr i weld yr holl ddata.

8.2 Mae angen cwblhau'r adran hon gyda manylion gwariant y prosiect o fewn y cyfnod hawlio. E.e. Ebrill – Mehefin 2025.

8.3 Mae canllawiau pellach yn yr adrannau isod. Gellir copïo eich data i mewn i gelloedd gwyn. Os oes angen rhesi ychwanegol arnoch, ewch i'r gell olaf a gwasgwch y botwm tab ar eich bysellfwrdd.

| | |
|---|---|
| A. Rhif Cyfeirnod y ddogfen | Rhowch rif cyfeirnod i bob trafodiad. Gall y rhif hwn fod yn rhif dilyniannol ar gyfer y cyfnod hawlio, neu eich rhif cyfeirnod mewnol eich hun. Bydd y tîm rhanbarthol yn defnyddio'r rhif cyfeirnod hwn i roi gwybod i chi pa samplau sy'n cael eu dewis i'w gwirio. Gwnewch yn siŵr bod y rhif cyfeirnod hwn hefyd wedi'i deipio/ysgrifennu ar y sampl a'i ddyfynnu yn enw'r ffeil wrth ei gyflwyno i'r tîm rhanbarthol i'w adolygu. |
| B. Pennawd Gwariant | Dewiswch o'r gwymplen (*drop down menu*). Dim ond penawdau gwariant o'r Atodiad B cymeradwy ar gyfer eich prosiect fydd yn cael eu rhestru. |
| C. Disgrifiad Cost | Rhowch ddisgrifiad byr o'r gwariant sy'n cael ei hawlio |
| D. Enw'r Cyflenwr, credydwr/talai neu cyflogai | Enw'r cyflenwr, credydwr/talai neu cyflogai. |
| E. Rhif yr anfoneb / Cyfeirnod y Talai | Rhif anfoneb/derbynneb neu unrhyw gyfeirnod fydd yn ei adnabod fel taliad unigol. |
| F. Dyddiad yr anfoneb neu'r trafodiad | Dyddiad yr anfoneb neu'r trafodiad.<br>Os yw'r dyddiad cyn cyfnod yr hawliad sy'n cael ei gyflwyno, rhowch esboniad yn y golofn Sylwadau Ategol. |
| G. Swm y trafodiad ac eithrio. TAW (Swm Net) | Cyfanswm yr anfoneb (ac eithrio TAW). |
| H. TAW | Swm TAW ar yr anfoneb / derbynneb. Rhowch £0.00 os na chodir TAW. |

| | |
|---|---|
| I. Cyfanswm swm yn cynwys TAW (Gros) | Dyma'r cyfanswm o golofn G a H. Dylai fod yn gyfanswm y trafodiad hyd yn oed os na yw 100% o'r gost yn SPF. |
| J. Swm TAW na ellir ei adennill | Y swm o TAW na allwch ei adennill gan CThEF. (HMRC) |
| K. Cyfanswm costau hawliad | Dyma gyfanswm y swm o golofn I a J a chostau'r prosiect a hawliwyd gan UKSPF. |
| L. Cyfanswm CFfG | Cyfanswm y gwariant o arian SPF |
| M. Gwariant CFfG Cyfalaf neu Refeniw | Nodwch os yw'n wariant Cyfalaf neu Refeniw |
| N. Cyfraniad Arian Cyfatebol | Bydd y swm Arian Cyfatebol yn cyfrifo'n awtomatig. Bydd angen i chi nodi ffynhonnell yr arian cyfatebol yn yr adran Proffil Cyllido Cyfatebol yn is i lawr ar y ddalen. |
| O. Sylwadau ategol neu fanylion unrhyw ragdybiaethau sy'n ymwneud â chostau | Sylwadau ategol yn ymwneud â'r gwariant a'r symiau a hawliwyd. E.e. Gwariant y tu allan i'r cyfnod hawlio / Canran y TAW na ellir ei adennill / Dim ond elfen o werth y trafodiad sy'n ymwneud â SPF. |
| P. Rhif Is-Thema - S01, S02 ayyb | Rhestrwch y swm SPF i bob is-thema sy'n berthnasol yn dilyn y wybodaeth yn eich Atodiad B cymeradwy. Rhaid i gyfanswm y swm a ddyrannwyd yn erbyn bob is-thema fod yn hafal i'r swm gwariant SPF yng Ngholofn L. Gwiriwch fod colofn AC/Check yn dangos TRUE - os yw'n nodi FALSE, bydd angen i chi adolygu'ch ffigurau. peidiwch â chynnwys unrhyw arian cyfatebol. |

## TALIADAU O FLAEN LLAW

8.4 Os ydych wedi derbyn unrhyw daliadau o flaen llaw, mae gofyn i chi eu rhestru yma.

8.5 Os oes gennych unrhyw arian yn weddill o daliad o flaen llaw, gall hyn olygu fod swm y grant sy'n cael ei dalu ar gyfer eich hawliad yn llai na'r swm gwirioneddol a hawliwyd.

8.6 Bydd y swm a dalwyd am yr hawliad yn cael ei nodi o dan yr adran Defnydd Swyddfa yn unig, ynghyd ag unrhyw sylwadau angenrheidiol.

## ARIAN CYFATEBOL

DRAFT

8.7 Bydd unrhyw gyllid cyfatebol oedd wedi ei gynnwys yn eich Atodiad B Cymeradwy wedi ei nodi yn barod.

8.8 Rhowch unrhyw swm arian cyfatebol sy'n berthnasol ar gyfer y cyfnod hawlio hwn. Gwnewch yn siŵr bod cyfanswm y swm cyfatebol wedi'i amlygu yn wyrdd, os yw'n goch, mae angen i chi adolygu'r wybodaeth a'i gywiro.

**DATGANIAD**

8.9 Sicrhewch fod y datganiad wedi'i lofnodi gan swyddog awdurdodedig sydd wedi eu rhestru ar y ddogfen llofnodion awdurdodedig wnaethoch chi ei gyflwyno gyda'ch cytundeb ariannu grant wedi'i lofnodi.

**GWIRIO CWBLHAD YR HAWLIAD**

8.10 Gwnewch yn siŵr bod **Cwblhau** wedi nodi ar gyfer pob dalen a restrwyd. Os yw **Anghyflawn** wedi ei nodi, adolygwch y wybodaeth o fewn y ddalen berthnasol.

## 9. ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU

9.1 Mae'r holl Ddangosyddion Allbynnau a Chanlyniadau wedi'u rhestru ar gyfer rhaglen 2025-2026. Mae ffigwr targed yr allbynnau a'r canlyniadau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer eich prosiect wedi ei nodi yng Ngholofn C.

9.2 Wrth adrodd ar y nifer a gyflawnwyd hyd yma, rhaid i chi nodi'r dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r ffigwr. Os na fydd tystiolaeth wedi ei nodi, bydd **Anghyflawn** yn dangos ar y tab Datganiad & Thrafodion Hawliad.

9.3 Os byddwch yn cyflawni allbynnau/canlyniadau ychwanegol sydd heb eu cymeradwyo, gallwch roi ffigwr yn y golofn *Nifer a gyflawnwyd yn y cyfnod Hawlio*. Cofiwch gynnwys gwybodaeth am y dystiolaeth i gefnogi'r ffigwr

9.4 Dim ond unwaith y dylai allbynnau neu ganlyniadau a gyflawnwyd gael eu cofnodi. Ni ddylai'r un cyflawniad gael ei gyfrif o dan ddangosyddion lluosog – bydd hyn yn cael ei ystyried yn gyfrif dwbl. Os yw'r uned fesur yn wahanol, ni fydd yn cael ei ystyried yn gyfrif dwbl.

9.5 Gellir dod o hyd i ddiffiniadau a thystiolaeth ddisgwyliedig i gefnogi cyflawniad allbynnau a'r canlyniadau [Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru - Trosolwg]

9.6 Ar gyfer dibenion y tîm rhanbarthol, bydd angen y dystiolaeth a restrir yng ngholofn F o'r ddogfen uchod wrth wirio a samplu tystiolaeth eich hawliadau. Mae angen cadw'r dystiolaeth a restrir yng Ngholofn G -Tystiolaeth sydd angen ei gasglu a'i gadw gan y Derbynnydd Grant at ddibenion archwilio am o leiaf 10 mlynedd, a gall naill ai Swyddogion SPF Gogledd Cymru, Archwilwyr Awdurdodau Lleol a/neu Swyddogion Llywodraeth y DU ofyn amdani.

## 10 CYNLLUN CYFLAWNI A CHERRIG MILLTIR

10.1 Bydd angen i chi ddiweddaru eich Cynllun Cyflawni a Cherrig Milltir. Mae'r tasgau a restrir wedi eu cymryd o'ch Atodiad B cymeradwy.

10.2 Mae'n ofynnol i chi ddiweddaru colofn F -Wedi'i gwblhau yn y cyfnod hawlio hwn – Ydi/Nac ydi. Rhowch sylwadau yng ngholofn G -Sylwadau ar y cynnydd a wneir. Os nad yw'r diweddariad ar gyfer yr hawliad hwn yn berthnasol, nodwch D/B neu fel arall bydd yn ymddangos fel anghyflawn ar y tab Datganiad Hawlio a Thrafodion. Gallwch ychwanegu tasgau os oes angen.

## 11 CAFFAEL

11.1 Diweddarwch eich cynllun Caffael a darparu manylion yr holl weithgareddau caffael sydd wedi'u cynllunio a'u cynnal hyd yma.

11.2 Sicrhewch fod pob colofn wedi'i chwblhau

| | |
|---|---|
| Disgrifiad o'r gwaith, cyflenwadau neu wasanaethau a ddarperir o dan y contract | Disgrifiad o'r gwaith, cyflenwad neu wasanaeth gafodd ei gaffael, a pha wariant sy'n cael ei gynnwys yn yr hawliad hwn. Os nad oes gwariant yn cael ei hawlio ar hyn o bryd, peidiwch â chynnwys y manylion caffael. |

| | |
|---|---|
| Gwerth disgwyliedig y gwaith (£) | Cyfanswm gwerth y contract mewn £ |
| A yw'r cytundeb eisoes wedi'i gaffael | Do/Naddo |
| Os yw, pryd ddyfarnwyd y cytundeb? | Nodwch y dyddiad y dyfarnwyd y cytundeb. |
| Sefydliad a gomisiynwyd i ddarparu gwaith, cyflenwad neu wasanaeth | Enw'r Sefydliad/Cwmni sydd wedi derbyn y cytundeb i ddarparu gwaith, cyflenwad neu wasanaeth ar gyfer y prosiect UKSPF hwn. |
| Os na, pryd fydd y cytundeb yn cael ei ddyfarnu? | Nodwch ddyddiad penodi'r cytundeb |
| Pa weithdrefn gaffael gafodd / fydd yn cael ei defnyddio? | Nodwch y llwybr caffael a ddilynwyd. Nodwch os ydych chi'n Awdurdod Contractio. |
| Sylwadau ar y cynnydd | Nodwch sylwadau ar gyfer pob llinell gweithgaredd caffael. |

11.3 Bydd cyflwyno adroddiad gwerthuso tendr gyda'ch hawliad yn lleihau'r gofyniad samplu gwirio.

## 12 COFRESTR RISG

12.1 Mae'r gofrestr risg eisoes wedi'i phoblogi gyda'r data a roddwyd yn eich Atodiad B cymeradwy.

12.2 Fel rhan o bob hawliad, rhaid i chi adolygu'r risgiau presennol, diweddaru'r sgoriau (os yw'n berthnasol) a rhoi diweddariad ar sut mae'r risg yn cael ei reoli.

12.3 Ychwanegwch unrhyw risgiau newydd o fewn y cyfnod hawlio os yw'n berthnasol.

## 13 TRACIWR HAWLIADAU PROSIECT

13.1 Mae'r traciwr hawliadau prosiect yn dangos crynodeb o'ch Atodiad B cymeradwy - Gwariant yn erbyn yr Is-themâu a'r penawdau gwariant, a'r Allbynnau a Chanlyniadau a gyflawnwyd.

13.2 Adolygwch y ddalen hon cyn i chi gyflwyno eich hawliad i'r Tîm SPF Gogledd Cymru.

## GWARIANT PROSIECT

## 14 COSTAU CYMWYS

14.1 Dim ond gwariant sydd wedi'i nodi yn Atodiad B cymeradwy y prosiect sy'n gymwys i gael eu hawlio. Dim ond os yw'r gwariant a wnaed o fewn y cyfnod hawlio penodol y byddent yn gymwys i'w hawlio.

14.2 Nid oes angen i chi anfon dogfennau tystiolaeth eich gwariant gyda'ch hawliad, ond bydd un o Dîm SPF Gogledd Cymru yn cysylltu â chi yn gofyn am ddogfennau tystiolaeth llwybr archwilio llawn ar sampl o'r trafodion o fewn yr hawliad.

14.3 I dystiolaethu'r gwariant a wnaed, bydd angen i chi gyflwyno copi o'r archeb, yr anfoneb, ac unrhyw gyfrifiadau ar sut mae'r swm sy'n cael ei hawlio wedi'i gyrraedd os nad yn 100% o'r archeb. Rydym yn disgwyl i anfonebau fod wedi'u talu erbyn i ni ofyn am sampl dilysu o'r hawliad, a byddwn yn disgwyl gweld copi o'r datganiad banc sy'n dangos y taliad a wnaed. Os yw'r taliad yn rhan o rediad talu mwy, bydd angen i chi ddarparu manylion am sut mae'r swm ar y datganiad banc wedi'i gyrraedd.

DRAFT

## 15 TAW

15.1 Ni ddylid cynnwys TAW oni bai eich bod yn gallu dangos nad ydych yn medru ei adennill gan yr awdurdod treth (HMRC). Os nad oes posib adfer % o'r TAW, bydd angen i chi ddarparu manylion/cyfrifiadau i ddangos sut y cyrhaeddoch at y swm a hawlir.

## 16 STAFF

16.1 Costau Staff Cyflawni Prosiect a Rheoli Prosiect: Dim ond swyddi sydd wedi'u nodi yn Atodiad B cymeradwy y prosiect gaiff eu hawlio.

## 17 COSTAU DISWYDDO

17.1 Dim ond os ydynt wedi eu nodi fel gwariant yn yr Atodiad B cymeradwy y gellir hawlio costau diswyddo.

17.2 Er mwyn i'r gwariant fod yn gymwys i'w hawlio, rhaid i'r penderfyniad i ddiswyddo fod wedi ei wneud pan fo'r aelod staff dal yn gweithio ar y prosiect SPF, a gydag o leiaf 2 flynedd o wasanaeth parhaus ar y prosiect.

17.3 Dim ond y gyfran SPF gysylltiedig o unrhyw dâl diswyddo fydd yn gymwys i'w hawlio.

17.4 Mae angen i'r holl gostau diswyddo fod yn gymesur â'r amser a dreuliwyd ar y prosiect, a rhaid iddynt fod ar sail pro-rata os ydynt yn gweithio ar y prosiect yn rhan-amser.

## 18 **GORBENION**

18.1 Wrth hawlio % o orbenion (os ydynt wedi'u nodi yn Atodiad B cymeradwy y prosiect) bydd angen i chi ddarparu manylion/cyfrifiadau sut yr ydych wedi cyrraedd y swm a hawlir.

## 19 TEITHIO A CHYNHALIAETH

19.1 Dylai costau Teithio a Chynhaliaeth (gwirioneddol) ymwneud ag aelodau staff y prosiect yn unig, a rhaid i'r costau fod yn benodol mewn perthynas â gweithgarwch y prosiect a ariannir gan SPF.

19.2 Rhaid i chi gadw'r holl ddogfennaeth briodol i gefnogi unrhyw hawliad Teithio a Chynhaliaeth (biliau gwesty, derbynebau parcio, cardiau mynediad, tocynnau ac ati) a rhaid i'r cyfraddau teithio a ddefnyddir fod ar gyfradd CThEF sef £0.45 y filltir.

DRAFT

## 20 GRANTIAU/CEFNOGAETH I 3YDD PARTÏON

20.1 Wrth gyflwyno hawliad am daliadau grant yr ydych wedi'u gwneud i drydydd parti, rhaid i chi gadw dogfennau i ddangos llwybr cyflawn o'r broses o gymeradwyo'r grantiau hyd at dalu'r grant.

20.2 Mae hyn yn cynnwys y cais am grant, cymeradwyaeth, y llythyr cynnig grant, dogfennau talu'r grant a gofynion rheoli cymhorthdal. (Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).

20.3 Bydd Tîm SPF Gogledd Cymru yn gofyn i gael gweld yr holl wybodaeth yn ystod yr ymweliad safle neu os caiff ei ddewis fel rhan o wiriad sampl hawliad.

## 21 COSTAU CYFRANOGWYR

21.1 Wrth gyflwyno hawliadau ar gyfer costau cyfranogwyr o ran teithio, mynychu digwyddiadau, llety, gofal plant ac ati (os yw wedi'i nodi yn Atodiad B cymeradwy y prosiect), dylid cadw manylion y cyfranogwyr er mwyn cefnogi'r swm sy'n cael ei hawlio

## 22 COSTAU CYFALAF

22.1 Dim ond gwariant cyfalaf sydd wedi'i nodi yn Atodiad B cymeradwy y prosiect sy'n gymwys i gael ei hawlio.

22.2 Diffinnir gwariant cyfalaf fel a ganlyn:

- Prynu tir a/neu adeilad
- Gwaith adeiladu
- Ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig ag adeiladu
- Offer a pheiriannau
- Unrhyw offer/gyfarpar sydd o werth uchel, wedi'i asesu yn unol â pholisi cyfalaf y sefydliad sy'n cyflawni'r prosiect.

Dylid cyfrif gwariant nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod fel gwariant refeniw.

DRAFT

## 23 MARCHNATA A CHYHOEDDUSRWYDD

23.1 Dylai costau Marchnata a Chyhoeddusrwydd fod wedi ei wneud yn benodol mewn perthynas â gweithgarwch y prosiect a ariannir gan SPF. Dylid cynnwys pob logo priodol ar ddeunyddiau, a chadw copïau.

## ADRODDIAD CYNNYDD

Mae hwn yn adroddiad naratif y mae'n rhaid ei gwblhau a'i ddychwelyd i ddiweddaru ar gynnydd hyd yn oed os nad ydych chi'n cyflwyno cais grant ariannol.

Ni fydd eich hawliad ariannol yn cael ei brosesu oni bai fod adroddiad cynnydd am y cyfnod wedi ei gyflwyno.

## 24 GWEITHGAREDDAU'R PROSIECT

24.1 Rhowch ddiweddariad sy'n crynhoi cynnydd a chyflawniad y prosiect yn ystod y cyfnod hawlio. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r cynnydd yn erbyn y cerrig milltir, gwariant, recriwtio, allbynnau a chanlyniadau.

## 25 CYHOEDDUSRWYDD

25.1 Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu manylion unrhyw weithgaredd cyhoeddusrwydd a wnaed yn ystod y cyfnod hawlio. Gall hyn gynnwys negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, hysbysebion staff, erthyglau, posteri, placiau, cynnwys ar y wê. Lle bo hynny'n bosibl rhowch ddolenni ac atodwch ddogfennau.

DRAFT

25.2 Rhowch unrhyw fanylion o ddigwyddiadau yn y dyfodol er mwyn i ni roi gwybod i Arweinwyr yr Awdurdod Lleol a thîm SPF Llywodraeth y DU ar gyfer trefnu ymweliadau posib gan Weinidogion.

25.3 Sicrhewch bod logo UKSPF a'r geiriad priodol yn cael ei ddefnyddio. Mae'r canllawiau Brandio yn rhoi mwy o wybodaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gogledd Cymru - Brandio

## 26 AMODAU ARBENNIG

26.1 Defnyddiwch yr adran hon i roi diweddariad cynnydd yn erbyn unrhyw amodau arbennig sydd wedi eu cynnwys yn eich cytundeb ariannu grant.

26.2 Nodwch D/B os nad yw'r adran hon yn berthnasol.

## 27 GWERTHUSO PROSIECT

27.1 Rhowch wybodaeth am sut rydych chi'n bwriadu gwerthuso eich prosiect, naill ai drwy benodi ymgynghorydd allanol neu drwy ei gynnal yn fewnol.

## 28 RHESTR ASEDAU

28.1 Rhestrwch yr holl asedau a brynwyd gydag arian y grant SPF ers dyddiad dechrau'r prosiect sydd â gwerth cyfanredol o £5,000 neu fwy. E.e. yn ystod oes y prosiect rydych chi'n prynu 10 gliniadur am £500 yr un, y gwerth cyfanredol yw £5,000, felly dylid eu rhestru.

## 29 YR IAITH GYMRAEG

29.1 Rhowch grynodeb o unrhyw weithgareddau'r prosiect sy'n berthnasol i'r Iaith Gymraeg. Gallai hyn gynnwys:

- Nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cyflawni'r prosiect / wedi'u recriwtio
- Arwyddion Cymraeg,

- Gwaith sydd wedi'i gyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog
- Deunyddiau hyrwyddo Cymraeg e.e. taflenni, ffurflenni cais, ffurflenni buddiolwyr

## 30 CYDRADDOLDEB

30.1 Rhowch grynodeb o unrhyw weithgareddau'r prosiect sy'n cefnogi cydraddoldeb. Gallai hyn gynnwys:

- Cymorth wedi'i dargedu i unigolion o unrhyw un o'r grwpiau nodweddiadol wedi eu gwarchod
- Cyfranogwyr sy'n ymgysylltu â'r prosiect o unrhyw un o'r grwpiau nodweddiadol wedi eu gwarchod
- Gwaith i wneud llefydd yn hygyrch, rampiau, lifft ac ati

## 31 SERO NET

31.1 Rhowch grynodeb o unrhyw weithgareddau sy'n cefnogi polisïau Sero Net Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

## 32 RHEOLI CYMORTHDALIADAU

32.1 Rhowch fanylion unrhyw gymorthdaliadau trydydd parti a ddarparwyd yn ystod y cyfnod hawlio.

32.2 Nodwch sut mae'r prosiect wedi cydymffurfio â'r rheoliadau Rheoli Cymorthdaliadau.

32.3 Os yw'n berthnasol, cadarnhewch fod yr holl gymorthdaliadau a ddarparwyd dros £100k wedi'u llwytho i fyny i'r gronfa ddata rheoli cymorthdaliadau.

32.4 Os nad yw'r cymhorthdal yn berthnasol i'ch prosiect, nodwch D/B

DRAFT

## 33 MATERION YN CODI

33.1 Nodwch unrhyw faterion a allai effeithio ar eich prosiect, e.e. amserlen, gwariant, allbynnau/canlyniadau. Os nad yw'n berthnasol i'ch prosiect, nodwch D/B.

## 34 CAIS AM NEWID

34.1 Defnyddiwch yr adran hon i gofnodi unrhyw newidiadau sydd â'r potensial i effeithio ar eich prosiect.

34.2 Cadarnhewch a ydych yn ystyried y newid yn un sylweddol ac os yw'r newid wedi'i drafod gyda'r tîm SPF lleol neu'r arweinydd aml-sir.

34.3 **Dim ond** newidiadau gweinyddol (h.y. dim newidiadau sylweddol) ddylid eu rhestru ar yr adroddiad cynnydd, a'u cymeradwyo trwy e-bost.

34.4 Bydd angen cwblhau ffurflen Cais am Newid ar gyfer newidiadau sylweddol, a'u trafod gyda'ch tîm SPF lleol neu'r arweinydd aml-sir cyn eu cyflwyno i'r Tîm SPF Gogledd Cymru.

34.5 Mae enghreifftiau o newidiadau sylweddol yn cynnwys (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- Newidiadau ym mherchnogaeth y prosiect
- Newidiadau yn y bartneriaeth sy'n effeithio ar addasrwydd strategol y prosiect
- Gostyngiad o fwy na 20% i gyfanswm allbwn neu ganlyniad unigol
- Gostyngiad o fwy na 20% yn y grant SPF
- Arian SPF ychwanegol (unrhyw newid)
- Unrhyw newid mewn Arian Cyfatebol
- Newid o fwy nag 20% rhwng penawdau gwariant ac is-thema (rhif S)
- Trosglwyddo arian SPF rhwng cyfalaf a refeniw
- Tynnu neu ychwanegu is-thema SPF (rhif S)
- Dileu unrhyw un o'r allbynnau neu ganlyniadau

## 35 CYNLLUNIO YMLAEN

35.1 Defnyddiwch yr adran hon i roi crynodeb byr o'r gweithgaredd sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y 3 mis nesaf.

Gwnewch yn siŵr bod yr adroddiad cynnydd wedi'i lofnodi gan swyddog awdurdodedig sydd wedi'i restru ar y ffurflen llofnodwyr awdurdodedig a gyflwynwyd gyda'ch cytundeb ariannu grant wedi'i lofnodi.

# CYFLWYNO HAWLIAD

Mae'r canlynol yn rhoi manylion y broses ar ôl derbyn eich hawliad.

## 36 AD-DALU'R GRANT

36.1 Byddwn yn gwirio bod eich ffurflen Hawlio a'ch Adroddiad Cynnydd yn gyflawn ar ôl ei dderbyn. Bydd Swyddog Prosiect yn cysylltu â chi os bydd unrhyw wallau yn cael eu canfod. Bydd yr hawliadau yn cael eu prosesu ar sail cyntaf i'r felin.

36.2 Ar ôl derbyn hawliad cyflawn a'i brosesu, ein nod yw rhyddhau'r taliadau o fewn 10-15 diwrnod gwaith. Bydd hysbysiad e-bost yn cael ei anfon i gadarnhau'r swm a'r dyddiad talu disgwyliedig, ynghyd â'ch templed ar gyfer yr hawliad canlynol, a bydd dalenni'r hawliad blaenorol wedi'u cloi.

36.3 Ni fydd taliad yr hawliad terfynol yn cael ei ryddhau nes bod y Tîm Rhanbarthol wedi cynnal y gwiriadau samplau ac wedi derbyn yr holl ddogfennaeth berthnasol ar gyfer eich prosiect sydd ei angen. (Mae'n hanfodol eich bod chi'n ymwybodol o hyn)

## 37 GWIRIO AC ADOLYGU

37.1 Bydd angen gwirio gwariant, gweithgarwch a chyflawniadau a adroddwyd arnynt ar gyfer y prosiect. Bydd y gwiriadau'n cael eu cynnal ar ôl cyflwyno pob hawliad chwarterol. Ni fydd y gwiriadau hyn yn oedi talu'r hawliad yr ydych

DRAFT

wedi'i gyflwyno, fodd bynnag, gall gwybodaeth anghywir neu ddiffyg gwybodaeth achosi oedi rhag talu hawliadau yn y dyfodol.

37.2 Bydd pob ymholiad neu gais am dystiolaeth ychwanegol mewn perthynas â'r adolygiad yn cael ei anfon dros e-bost a bydd angen ymateb boddhaol o fewn 5 diwrnod gwaith i sicrhau y gellir prosesu'r hawliadau fydd yn dilyn. Gall unrhyw oedi arwain at daliad yn cael ei ddal yn ôl nes y cyfnod hawlio nesaf.

37.3 Gallwch hefyd fod yn destun ymweliad gwirio ar safle i archwilio'ch cofnodion.

37.4 Bydd cyflwyno adroddiad gwerthuso tendr / caffael a chynnwys dolenni gwe i'r gwaith marchnata yn lleihau nifer y samplau dilysu y gofynnir amdanynt.

## 38 GWIRIO SAMPLAU

38.1 Bydd pob hawliad grant a gyflwynir yn destun gwiriad sampl. Byddwch fel arfer yn derbyn cais am sampl ar yr un pryd ag y byddwch yn derbyn hysbysiad fod y taliad yn cael ei ryddhau.

38.2 Bydd samplau gwirio yn cael eu dewis o'r canlynol:

- Rhestr trafodion gwariant,
- Allbynnau a gyflawnwyd hyd yn hyn
- Canlyniadau a gyflawnwyd hyd yn hyn
- Gweithgaredd Caffael
- Gweithgaredd Marchnata
- Prosesau Rheoli Cymhorthdal

38.3 Bydd pob cais am sampl yn gymesur â lefel y risg a nodwyd o adolygiadau blaenorol, a byddant felly yn amrywio o hawliad i hawliad ac o brosiect i brosiect.

38.4 Bydd gofyn i chi gyflwyno llwybr archwilio llawn i'r sampl dros e-bost o fewn deg diwrnod gwaith. Mae angen hyn i sicrhau fod arian UKSPF yn cael ei ddefnyddio'n gywir. Mae adran 40-43 isod yn darparu manylion y dystiolaeth.

38.5 **Dylid cyflwyno un dogfen PDF i gefnogi pob sampl a ddewisir - peidiwch â chyflwyno nifer o ddogfennau i gefnogi un sampl.**

38.6 Yn ystod y gwiriad sampl, os canfyddir camgymeriadau, bydd angen cywiro'r rhain ar eich hawliad nesaf. Gall hyn hefyd gynyddu nifer y trafodion sampl y bydd gofyn i chi eu cyflwyno ar hawliadau dilynol.

## 39 ARCHWILIAD AR SAFLE

39.1 Yn ystod oes y prosiect, mae'r Tîm SPF Gogledd Cymru yn cadw'r hawl i archwilio cofnodion ac asedau'r prosiect ar y safle. Bydd cymaint o rybudd â phosib yn cael ei roi, gyda'r lleiafswm y cyfnod rhybudd yn 12 diwrnod gwaith. Bydd angen i chi sicrhau bod eich prosesau'n ddigon cryf i hwyluso adolygiad o'r fath.

39.2 Wedi'r archwiliad, os nad yw'r Tîm SPF Gogledd Cymru yn fodlon gyda'u casgliadau, gallent ofyn i chi ad-dalu peth neu'r cyfan o'r arian.

# TYSTIOLAETH A DOGFENNAETH GEFNOGOL

## 40 TYSTIOLAETH GWARIANT

40.1 I wirio'r gwariant a hawlir bydd gofyn i chi gyflwyno copi o'r archeb berthnasol, yr anfoneb neu dderbynneb, cofrestriad BACS, a datganiadau banc sy'n dangos y taliad.

## 41 TYSTIOLAETH ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU

41.1 Gall y dystiolaeth i gefnogi'r allbynnau a'r canlyniadau amrywio o brosiect i brosiect. Mewn rhai achosion, ni fydd y dystiolaeth sydd wedi ei nodi yn eich Atodiad B cymeradwy yn ddigonol i fodloni diffiniadau sydd wedi eu cyhoeddi gan Lywodraeth y DU.

41.2 Os mai dyma'r achos, bydd aelod o'r tîm SPF lleol yn cysylltu â chi i drafod a chytuno ar unrhyw dystiolaeth ychwanegol y gallai fod angen i chi ei gasglu.

DRAFT

Gweler Diffiniadau Allbynnau a Chanlyniadau UKSPF fel canllaw i'r mathau o dystiolaeth a fyddai'n bodloni'r diffiniad.

## 42 TYSTIOLAETH CAFFAEL

42.1 Ni fydd gofyn am samplau gwirio caffael mor drylwyr - dim ond darparu adroddiad caffael sydd angen. Yn ddibynnol ar y gwerth/ broses a ddilynwyd, gall hyn gynnwys adroddiad yn rhoi manylion y 3 dyfynbris a dderbyniwyd, ac adroddiad bras pam y dewiswyd cyflenwr, neu adroddiad arfarnu cytundeb ar gyfer cynigion gwerth uwch.

42.2 Rhaid i chi gadw'r holl dystiolaeth i gefnogi'r broses gaffael yn ei gyfanrwydd oherwydd bydd hyn yn cael ei adolygu os cewch chi archwiliad ar safle.

42. 3 Dylid cadw'r dogfennau canlynol (nid yw rhestr hon yn gynhwysfawr):

- Y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd cyn ac yn ystod dewis cyflenwr
- Y meini prawf ar gyfer arfarnu tendr a ddefnyddiwyd
- Adroddiad arfarnu'r tendr
- Copi o'r Cyfnodolyn OJEU a ddefnyddiwyd i hysbysebu
- Gweithdrefn Agor a Chofnodi Tendrau (Adroddiad Agor Tendr)
- Manylion Panel Gwerthuso
- Datganiadau Cyfrinachedd / Gwrth Gynllwynio
- Gwerthusiad / Dadansoddiad / Matrics Sgorio tendrau
- Adroddiad tendr neu gofnodion y cyfarfod penderfynu ar gyflenwr
- Copi o gytundeb y cyflenwr llwyddiannus wedi'i lofnodi a'i ddyddio
- Copi o ddogfennaeth hysbysu cyflenwyr aflwyddiannus
- Cofnodion cyfarfod adeiladu (cynlluniau cyfalaf yn unig)
- Rhaglen Waith y datblygiad (cynlluniau cyfalaf yn unig)

## 43 CADW DOGFENNAU

43.1 Sicrhewch eich bod yn cadw'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r grant Cronfa Ffyniant Gyffredin UKSPF am isafswm o 10 mlynedd ar ôl y taliad grant terfynol.

43.2 Bydd Tîm SPF Gogledd Cymru yn gofyn i gael gweld y dogfennau hyn yn ystod eu hymweliadau safle o fewn cyfnod UKSPF hyd at fis Mawrth 2026.

DRAFT

43.3 Ar ôl mis Mawrth 2026, gall Archwilwyr gysylltu â chi a gofyn i weld yr holl ddogfennau. Mae hyn yn cynnwys y dogfennau canlynol (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr): ariannol, caffael, marchnata a hyrwyddo, neu dystiolaeth o'r targedau a adroddwyd. Rhaid i'r dogfennau fod ar gael i'w archwilio ar unwaith.